Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.

# bwletin
## gweinyddiaeth etholiadol




**Rhifyn 369 (Cymru) - 7 Mai 2024**

## Etholiadau mis Mai 2024: casglu data etholiadol

Hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a helpodd i gynnal etholiadau dydd Iau yn llwyddiannus. Ein hasesiad cychwynnol yw bod yr etholiadau, yn gyffredinol, wedi'u cynnal yn dda. Ledled y wlad, bwriwyd pleidleisiau trwy gydol y dydd ac yn unol â'r gyfraith.

Bydd y Comisiwn nawr yn dechrau ar y broses o gasglu gwybodaeth a gwerthuso fel y gallwn adrodd yn ffurfiol ar sut y cynhaliwyd yr etholiadau, ac ar brofiadau pleidleiswyr, ymgeiswyr, ymgyrchwyr a gweinyddwyr.

Mae ein porth data bellach yn fyw ar gyfer casglu data sy'n ymwneud ag etholiadau mis Mai. Dylech fod wedi derbyn e-bost i'ch cyfeiriad e-bost gwasanaethau etholiadol gyda manylion ar sut i fewngofnodi/ailosod eich cyfrinair. Mae'r canllawiau llawn i ddefnyddwyr ar gael hefyd.

Rydym wedi rhannu'r data rydym yn gofyn amdanynt yn ddau grŵp – mae ganddynt derfynau amser gwahanol ond gellir cwblhau'r ddwy set o ddata ar y porth nawr:

- Data yn ymwneud ag ID pleidleisiwr – y dyddiad cau ar gyfer dychwelyd y data hwn yw dydd Gwener 17 Mai
- Data gweinyddol craidd gan gynnwys data sy'n ymwneud â phleidleisio drwy'r post, pleidleisiau a wrthodwyd ac ati – y dyddiad cau ar gyfer dychwelyd y data hwn yw dydd Gwener 14 Mehefin

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gasglu data, cysylltwch â research@electoralcommission.org.uk.

## Etholiadau mis Mai 2024: casglu adborth

Rydym yn cynnal arolwg o staff gorsafoedd pleidleisio i gasglu adborth am eu profiadau ar y diwrnod pleidleisio.

Y
Comisiwn
Etholiadol

## Cynnwys

**Etholiadau mis Mai 2024: casglu data etholiadol**
Nodyn i'ch atgoffa am ein casgliad data yn dilyn etholiadau mis Mai 2024, a dolenni i'r porth data a'r canllawiau i ddefnyddwyr.

**Etholiadau mis Mai 2024: casglu adborth**
Gwybodaeth am ein cynlluniau ar gyfer casglu adborth yn dilyn etholiadau mis Mai.

**Deddf Etholiadau: Hawliau Pleidleisio'r Undeb Ewropeaidd – diweddariad ar ganllawiau**
Gwybodaeth am gyhoeddi canllawiau wedi'u diweddaru i adlewyrchu'r newidiadau i'r etholfraint.

**Deddf Etholiadau: ffurflenni a llythyrau**
Gwybodaeth am ddiweddariadau i'n ffurflenni Gwahoddiad i Gofrestru a llythyrau Adolygiad Cadarnhad Cymhwysedd.

**Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.**

**Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.**

Diolch yn fawr i'r awdurdodau lleol hynny sydd eisoes wedi dosbarthu'r ddolen i'r arolwg. Rydym am gael cymaint o ymatebion â phosibl gan y staff a oedd yn gweithio ar 2 Mai – os gallwch, rhannwch y ddolen isod gyda staff gorsafoedd pleidleisio yn eich ardal.

https://eu.surveymonkey.com/r/65DFF28?lang=cy

Y dyddiad cau i staff gwblhau'r arolwg yw dydd Gwener 17 Mai.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr arolwg, cysylltwch â research@electoralcommission.org.uk.

Hoffem hefyd gael adborth gweinyddwyr etholiadol ar yr etholiadau.

Mae ein harolwg adborth bellach yn fyw a gellir ei gyrchu yma: https://eu.research.net/r/5PNLNG5?lang=cy

Y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r arolwg yw dydd Gwener 7 Mehefin. Os oes gennych unrhyw ymholiadau cysylltwch â researchsurvey@electoralcommission.org.uk.

## Deddf Etholiadau: Hawliau Pleidleisio'r Undeb Ewropeaidd – diweddariad ar ganllawiau

O 7 Mai 2024 ymlaen, mae Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Diwygio Etholfraint ac Adolygu Cymhwysedd) 2023 yn diweddaru'r etholfraint ar gyfer etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

Rydym bellach wedi diweddaru ein canllawiau craidd ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol i adlewyrchu'r newidiadau i'r etholfraint. Mae'r diweddariadau'n egluro sut i benderfynu ar gymhwysedd ceisiadau newydd a wneir gan ddinasyddion yr UE a dinasyddion yr UE â chenedligrwydd deuol a'r prosesau i'w defnyddio os oes angen rhagor o wybodaeth i sefydlu cymhwysedd yn dilyn y newidiadau i'r etholfraint.

## Deddf Etholiadau: ffurflenni a llythyrau

Ymhellach i Fwletin 366, mae ein ffurflenni Gwahoddiad i Gofrestru bellach yn fyw a gellir eu gweld YMA. Mae'r llythyrau Adolygiad Cadarnhad Cymhwysedd hefyd yn fyw ac ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan drwy'r dudalen ffurflenni cofrestru a llythyrau. Mae ein holl lythyrau a ffurflenni ar gael i'r gwahanol gyflenwyr meddalwedd rheoli etholiadol mewn pryd ar gyfer heddiw, felly dylid gwneud unrhyw geisiadau dylunio amgen trwy eich cyflenwr.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Llawr 3, James William House
9 Museum Place, Caerdydd
CF10 3BD
Ffôn: 0333 103 1929

infowales@electoralcommission.org.uk

**www.comisiwnetholiadol.org.uk**
© Y Comisiwn Etholiadol 2024

**Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio infowales@electoralcommission.org.uk**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr yma atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion cyswllt yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel sydd yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.**